



COMISIWN FFINIAU I GYMRU

**ADRODDIAD YNGLŶN Â'R ARDALOEDD A
GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU BRECON AND
RADNORSHIRE, A NEATH**

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

**REPORT WITH RESPECT TO THE AREAS
COMPRISED IN THE CONSTITUENCIES OF
BRECON AND RADNORSHIRE, AND NEATH**

IONAWR 2008

JANUARY 2008



COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD YNGLŶN Â'R ARDALOEDD A GYNHWYSIR YN ETHOLAETHAU BRECON AND RADNORSHIRE, A NEATH

BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

REPORT WITH RESPECT TO THE AREAS COMPRISED IN THE CONSTITUENCIES OF BRECON AND RADNORSHIRE, AND NEATH

IONAWR 2008

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â rhan 3(3) Deddf Etholaethau Seneddol 1986

JANUARY 2008

Presented to Parliament pursuant to section 3(3) of the Parliamentary Constituencies Act 1986

Ordered by The House of Commons to be printed 11 June 2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir heb ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan berchnogion yr hawlfraint dan sylw.

I ddefnyddio'r deunydd hwn mewn unrhyw ffordd arall, ysgrifennwch at Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: licensing@opsi.gov.uk

© Crown Copyright 2008

The text in this document (excluding the Royal Arms and other departmental or agency logos) may be reproduced free of charge in any format or medium providing it is reproduced accurately and not used in a misleading context. The material must be acknowledged as Crown copyright and the title of the document specified.

Where we have identified any third party copyright material you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

For any other use of this material please write to Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU or e-mail: licensing@opsi.gov.uk

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, cyfansoddwyd y Comisiwn fel a ganlyn:

Aelod yn rhinwedd ei swydd

LLEFARYDD TŶ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd.*

A thri aelod arall

YR ANRHYDEDDUS MR USTUS LLOYD JONES, *Dirprwy Gadeirydd*
a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

MRS SUSAN SMITH,
a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Lle gwag

Aseswyr

COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR.

CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDNANS.

Cyd-Ysgrifenyddion

Mr Tony Bellringer (tan fis Hydref 2007)

Mr Edward Lewis

CONSTITUTION OF THE COMMISSION

In accordance with Schedule 1 to the Parliamentary Constituencies Act 1986, the Commission was constituted as follows:

Ex-officio Member

THE SPEAKER OF THE HOUSE OF COMMONS, *Chairman*.

And three other Members

THE HONOURABLE MR JUSTICE LLOYD JONES, *Deputy Chairman*
appointed by the Lord Chancellor.

MRS SUSAN SMITH,
appointed by the Secretary of State for Wales.

VACANCY

Assessors

THE REGISTRAR GENERAL FOR ENGLAND AND WALES.

THE DIRECTOR GENERAL OF ORDNANCE SURVEY.

Joint Secretaries

Mr Tony Bellringer (until October 2007)

Mr Edward Lewis

CYNNWYS

	Tudalen
A. CYFLWYNIAD.....	1
B. DARPAR ARGYMHELLION	3
C. CYNRYCHOLAETHAU A GAFWYD	4
D. ARGYMHELLION TERFYNOL	5
Atodiad A Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau	6
Atodiad B Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad.....	8
Atodiad C Datganiad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg	10
Atodiad D Cyfansoddiad y ddwy etholaeth argymelledig.....	12
Atodiad E Map o Gwm-twrch Isaf.....	13
Atodiad F Map o Etholaethau a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad.....	14

CONTENTS

	Page
A. INTRODUCTION	1
B. PROVISIONAL RECOMMENDATIONS	3
C. REPRESENTATIONS RECEIVED.....	4
D. FINAL RECOMMENDATIONS	5
Appendix A Rules for the Redistribution of Seats	6
Appendix B Rules for the Constitution of Assembly Electoral Regions	8
Appendix C Statement on the use of the Welsh language	10
Appendix D Composition of the two recommended constituencies	12
Appendix E Map of Lower Cwm-twrch	13
Appendix F Map of Constituencies and Assembly Electoral Regions	14

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad Ar berthynas yr ardaloedd a gynhwysir yn Etholaethau Brecon and Radnorshire, a Neath

AT Y GWIR ANRHYDEDDUS JACK STRAW AS

Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi

A. CYFLWYNIAD

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi'i sefydlu a'i gyfansoddi o dan Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1986) at ddiben, fel y nodir yn Adran 2(1) y Ddeddf honno, arolygu'n barhaus ddsbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol. O dan Adran 3(1) Deddf 1986, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n dangos yr etholaethau yr argymhellwn y dylid rhannu Cymru iddynt yn unol â'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddau, a hynny nid llai nag wyth mlynedd na mwy na deuddeg mlynedd o ddyddiad cyflwyno ein hadroddiad blaenorol. Mae'r Rheolau hyn yn ffurfio Atodlen 2 Deddf 1986 ac fe'u nodir yn Atodiad A yr adroddiad hwn. 31 Ionawr 2007
2. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1998) Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o dan Atodlen 1 y Ddeddf honno mae'n ofynnol i ni gynnal arolygon o ranbarthau etholiadol y Cynulliad ar yr un pryd ag arolygon cyffredinol o etholaethau Seneddol, yn unol â'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1. Nodir y Rheolau hyn yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.
3. Cyflwynwyd ein hadroddiad diweddaraf ynghylch arolwg cyffredinol (HC 743-I) ar 31 Ionawr 2005, a rhoddwyd ein hargymhellion ar waith gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a luniwyd ar 11 Ebrill 2006 (SI 2006 Rhif 1041). Daeth yr etholaethau newydd mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru i rym yn ystod etholiad y Cynulliad ar 3 Mai 2007, ac mewn perthynas ag etholaethau Seneddol, byddant yn dod i rym yn ystod yr etholiad cyffredinol nesaf.
4. Daeth Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004 i rym ar 1 Ebrill 2005, a newidiodd y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys (a newid ôl-ddilynol i ffiniau siroedd wedi'u cadw Gorllewin Morgannwg a Phowys). O ganlyniad i'r Gorchymyn hwn, nid yw'r ffin rhwng Neath County Constituency (CC) ac Brecon and Radnorshire CC yn dilyn y ffin sirol a'r sir wedi'i gadw mwyach, felly penderfynodd y Comisiwn gynnal arolwg o ran yr ardal yr effeithir arni o dan adran 3 (3) Deddf 1986.
5. Rhoddom wybod am ein bwriad i ddechrau'r arolwg ar 1 Mehefin 2007, ac aethpwyd ati mor gyflym ag y caniaatodd ystyriaeth lawn o'r holl gynrychiolaethau. O'r dechrau i'r diwedd, cymerodd 7 mis i gwblhau'r arolwg.
6. Hoffem ddiolch i'n haseswyr am eu cymorth mewn cyfarfodydd: a hoffem ddiolch hefyd i'n cyfieithwyr, y gofynnwyd iddynt yn aml fodloni terfynau amser cyfyng iawn.

Boundary Commission for Wales

Report with respect to the areas comprised in the Constituencies of Brecon and Radnorshire, and Neath

TO THE RIGHT HONOURABLE JACK STRAW MP

Her Majesty's Secretary of State

A. INTRODUCTION

1. The Boundary Commission for Wales is established and constituted under Schedule 1 to the Parliamentary Constituencies Act 1986 (described in this report as the 1986 Act) for the purpose, as laid down in Section 2(1) of that Act, of the continuous review of the distribution of seats at Parliamentary elections. Under Section 3(1) of the 1986 Act, we are required to submit to the Secretary of State, not less than eight or more than twelve years from the date of the submission of our previous report, a report showing the constituencies into which we recommend that Wales should be divided in accordance with the Rules for Redistribution of Seats. These Rules form Schedule 2 to the 1986 Act and are set out in Appendix A to this report. The report was submitted on 31 January 2007.
2. The Government of Wales Act 1998 (described in this report as the 1998 Act) established the National Assembly for Wales, and under Schedule 1 to that Act we are required to undertake reviews of the Assembly electoral regions at the same time as general reviews of Parliamentary constituencies in accordance with the Rules set out in paragraph 8 of Schedule 1. These Rules are set out in Appendix B to this report.
3. Our most recent report on a general review (HC 743-I) was submitted on 31 January 2005 and our recommendations were given effect by Order in Council made on 11 April 2006 (SI 2006 No. 1041). The new constituencies in respect of the National Assembly for Wales took effect at the Assembly election on 3 May 2007 and in respect of the Parliamentary constituencies will come into effect at the next general election.
4. The Neath Port Talbot and Powys (Cwmtwrch) Order 2004 came into effect on 1 April 2005 and made changes to the boundary between the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys (and a consequential change to the boundaries of the preserved counties of West Glamorgan and Powys). As a result of this Order the boundary between Neath County Constituency (CC) and Brecon and Radnorshire CC no longer follows the county and preserved county boundary and so the Commission decided to carry out a review of the affected area under section 3 (3) of the 1986 Act.
5. We gave notice of our intention to commence the review on 1 June 2007 and proceeded as expeditiously as full consideration of all the representations allowed. From start to finish the review has taken 7 months to complete.
6. We would like to thank our assessors for the help they have provided at meetings: and we would also like to thank our translators, who have often been asked to meet very short deadlines.

7. Ein Hysgrifenyddion fu Mr Edward Lewis a, than Hydref 2007, Mr Tony Bellringer. Cawsant gefnogaeth gan yr ysgrifenyddiaeth: Mr Stephen Halsall, Mr David Carr, Mrs Liza Brough, Mrs Catherine Thomas a Mr John Ledsam.
8. Mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi llywyddu ein holl gyfarfodydd yn ystod cyfnod yr arolwg. Fel Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau, mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith wrth i'r arolwg fynd yn ei flaen.

7. Our Secretaries have been Mr Edward Lewis and, until October 2007, Mr Tony Bellringer. They were supported by the secretariat: Mr Stephen Halsall, Mr David Carr, Mrs Liza Brough, Mrs Catherine Thomas and Mr John Ledsam.
8. The Deputy Chairman has presided over all our meetings during the course of the review. As Chairman of each of the four Boundary Commissions, the Speaker of the House of Commons has been kept informed of our work, as the review has progressed.

B. DARPAR ARGYMHELLION

9. Cyhoeddom ein darpar argymhellion ar 1 Medi 2007, a chyhoeddom hysbysiad o'r rhain mewn papurau newydd lleol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a oedd yn cylchredeg yn yr etholaethau yr effeithiwyd arnynt, gan wahodd cynrychiolaethau cyn pen y cyfnod statudol o un mis calendr. Sicrhawyd bod copïau o'r argymhellion hyn, ynghyd â mapiau eglurhaol, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd mewn mannau cyfleus yn yr etholaethau yn ogystal ag ar wefan y Comisiwn ar www.bcomm-wales.gov.uk.
10. Cyflwynodd Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2005, newidiadau i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys (a newid ôl-ddilynol i ffiniau siroedd wedi'u cadw Gorllewin Morgannwg a Phowys). O ganlyniad i hyn, nid yw'r ffin rhwng Neath CC ac Brecon and Radnorshire CC yn dilyn y ffin sirol a'r sir wedi'i gadw mwyach, gan effeithio ar 84 o etholwyr. Ein darpar argymhellion oedd y dylid diwygio ffin yr etholaeth i gyd-fynd â'r ffin sirol newydd, gan drosglwyddo'r 84 o etholwyr o Neath CC i Brecon and Radnorshire CC.
11. Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r etholaethau seneddol. Felly, byddai'r newid i'r etholaethau seneddol a gynigir yn ein darpar argymhellion yn cynnwys newid etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Castell-nedd, a Brycheiniog a Sir Faesyfed.
12. Cynhwysir etholaeth Castell-nedd yn rhanbarth etholiadol Gorllewin De Cymru y Cynulliad, a chynhwysir etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed yn rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad. O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r etholaethau Seneddol, byddai etholaeth rhanbarth etholiadol Gorllewin De Cymru y Cynulliad yn gostwng o 84 o etholwyr, a byddai rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad yn gweld cynnydd cyfatebol. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd y mân newid hwn, a oedd yn cynnwys nifer fach o etholwyr, yn ei wneud yn ofynnol newid cyfansoddiad rhanbarthau etholiadol y Cynulliad.

B. PROVISIONAL RECOMMENDATIONS

9. We issued our provisional recommendations on 1 September 2007 and published notification of these in local newspapers, in the English and Welsh languages, circulating in the constituencies affected, inviting representations to be made within the statutory period of one calendar month. Copies of these recommendations, with illustrative maps, were made available for public inspection at convenient places within the constituencies and on the Commission's web site at www.bcomm-wales.gov.uk.
10. The Neath Port Talbot and Powys (Cwmtwrch) Order 2004 which came into effect on 1 April 2005 made changes to the boundary between the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys (and a consequential change to the boundaries of the preserved counties of West Glamorgan and Powys). As a result the boundary between Neath CC and Brecon and Radnorshire CC no longer follows the county and preserved county boundary, affecting 84 electors. Our provisional recommendations were that the constituency boundary be altered to conform with the new county boundary, transferring the 84 electors from Neath CC to Brecon and Radnorshire CC.
11. The National Assembly for Wales constituencies are the parliamentary constituencies. The change to the parliamentary constituencies proposed in our provisional recommendations would therefore involve a change to the National Assembly for Wales constituencies of Neath and Brecon and Radnorshire.
12. The Neath constituency is included within the South Wales West Assembly electoral region and the Brecon and Radnorshire constituency is included within the Mid and West Wales Assembly electoral region. As a consequence of the proposed changes to the Parliamentary constituencies, the electorate of the South Wales West Assembly electoral region would decrease by 84 electors, and the electorate of the Mid and West Wales Assembly electoral region would see a corresponding increase. The Commission considered that this minor change, involving a small number of electors, did not require a change to the composition of the Assembly electoral regions.

C. CYNRYCHIOLAETHAU A GAFWYD

13. Cafwyd y cynrychiolaethau (a gyflwynir ym mhwyntiau i i iii isod) ynglŷn â'n darpar argymhellion cyn pen y cyfnod statudol o fis:
 - i. Cymeradwywyd ein cynigion gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;
 - ii. Cymeradwywyd ein cynigion gan Gyngor Sir Powys; a
 - iii. Chymeradwywyd ein cynigion gan Gwenda Thomas AC, ond cyfeiriodd at gamgymeriad ar y map a gynhwyswyd gyda'n darpar argymhellion a ddangosai'r etholaethau a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad.
14. Gan na chafwyd unrhyw gynrychiolaethau, oddi wrth y prif gyngor na chorff o gant o etholwyr neu fwy, a oedd yn gwrthwynebu ein cynigion, nid oedd yn ofynnol, o dan adran 6(2) y Ddeddf, cynnal ymholiad lleol cyn rhoi ein hargymhellion ar waith.
15. Roedd a wnelo'r camgymeriad ar fap yr Etholaethau a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Atodiad 2 i'n darpar argymhellion) â safle'r blwch a amlygai'r ardal i'w arolygu (fel y dangosir ar y map yn Atodiad 1 i'n darpar argymhellion). Cywirwyd y camgymeriad hwn cyn gynted ag y rhoddwyd gwybod i ni, a rhoddwyd y map diwygiedig ar ein gwefan. Hoffem ddiolch i Ms Thomas am roi gwybod i ni mor gyflym.
16. Rydym o'r farn nad oedd y camgymeriad, er ei fod yn affodus, yn berthnasol i'r cynigion a oedd yn cael eu cyflwyno, am nad oedd yn newid y siroedd na'r etholaethau sydd i'w diwygio.

C. REPRESENTATIONS RECEIVED

13. Three representations (at i to iii below) were received in respect of our provisional recommendations during the statutory one month period:
 - i. Neath Port Talbot County Borough Council approved of our proposals;
 - ii. Powys County Council approved of our proposals; and
 - iii. Gwenda Thomas AM approved of our proposal but pointed out an error on the map included with our provisional recommendations showing the constituencies and Assembly electoral regions.
14. As no representations objecting to our proposals were received from a principal council nor from a body of electors numbering one hundred or more, there was no requirement by section 6(2) of the Act to hold a local inquiry before proceeding with our recommendations.
15. The error on the Constituencies and Assembly Electoral Regions map (Appendix 2 to our provisional recommendations) was in respect of the position of the box highlighting the review area (as shown on the map at Appendix 1 to our provisional recommendations). This error was corrected as soon as we were notified and the amended map was put on our web site. We would like to thank Ms Thomas for her speedy notification.
16. We consider that the error though unfortunate was not germane to the proposals being made, as it did not change the counties or constituencies that are to be amended.

D. ARGYMHELLION TERFYNOL

17. Gwnaethom argymell mabwysiadu ein darpar argymhellion fel a ganlyn:
- i. addasu'r ffin rhwng Etholaeth Sirol Castell-nedd ac Etholaeth Sirol Brycheiniog a Sir Faesyfed i gydymffurfio â'r ffin sirol rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004; ac
 - ii. addasu'r ffin rhwng rhanbarth etholiadol Gorllewin De Cymru a rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn cydymffurfio â'r newid a argymhellir yn i. uchod.
18. Nodir cyfansoddiad manwl y ddwy etholaeth argymelledig yn Atodiad D. Ceir mapiau sy'n dangos y newidiadau argymelledig yn Atodiadau E ac F.

Yr Anrhydeddus Ustus Mr David Lloyd Jones, *Dirprwy Gadeirydd*

Mrs Susan Smith

Edward Lewis, *Cyd Ysgrifennydd*

Ionawr 2008

D. FINAL RECOMMENDATIONS

17. We recommend the adoption of our provisional recommendations as follows:
- i. the boundary between Neath County Constituency and Brecon and Radnorshire County Constituency to be altered to conform with the county boundary between the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys as changed by the Neath Port Talbot and Powys (Cwmtwrch) Order 2004; and
 - ii. the boundary between the South Wales West Assembly electoral region and the Mid and West Wales Assembly electoral region to be altered so as to conform to the change recommended at i. above.
18. The detailed composition of the two recommended constituencies is set out in Appendix D. Maps illustrating the recommended changes are at Appendices E and F.

The Honourable Mr Justice David Lloyd Jones, *Deputy Chairman*

Mrs Susan Smith

Edward Lewis, *Joint Secretary*

January 2008

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDAU

Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd

Y Rheolau

- 1.- (1) Ni fydd nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr yn sylweddol uwch na llai na 613.
- (2) ...
- (3) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35.
- (4) ...
2. Bydd pob etholaeth yn dychwelyd un aelod.
3. ...
- 3A. ...
- 4.- (1) Cyhyd ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 3 -
 - (a) yng Nghymru a Lloegr, -
 - (i) ni chynhwysir unrhyw sir na rhan o unrhyw sir mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw sir gyfan arall neu ran o unrhyw sir arall ...
 - (ii) ...
 - (b) ...
 - (c) ...
- (1A) Yn is-baragraff (1)(a) uchod, mae "sir" yn golygu, mewn perthynas â Chymru, sir a gedwir fel y'i diffiniwyd gan Adran 64 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- (2) ...
5. Bydd nifer etholwyr unrhyw etholaeth cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 4; a gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheol 4 yn llym os ymddengys iddo fod gwyro'n ddymunol er mwyn osgoi anghysondeb eithafol rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth ac etholaethau cyfagos yn y rhan o'r Deyrnas unedig y maent yn ymwneud â hwy.
6. Gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheolau 4 a 5 yn llym os ymddengys iddo fod ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn awgrymu y byddai gwyriad yn ddymunol.

RULES FOR REDISTRIBUTION OF SEATSSchedule 2 to the Parliamentary Constituencies Act 1986, as amended**The Rules**

- 1.- (1) The number of constituencies in Great Britain shall not be substantially greater or less than 613.
- (2) ...
- (3) The number of constituencies in Wales shall not be less than 35.
- (4) ...
2. Every constituency shall return a single member.
3. ...
- 3A. ...
- 4.- (1) So far as is practicable having regard to rules 1 to 3 -
 - (a) in England and Wales, -
 - (i) no county or any part of a county shall be included in a constituency which includes the whole or part of any other county ...
 - (ii) ...
 - (b) ...
 - (c) ...
- (1A) In sub-paragraph (1)(a) above “county” means, in relation to Wales, a preserved county as defined by Section 64 of the Local Government (Wales) Act 1994.
- (2) ...
5. The electorate of any constituency shall be as near the electoral quota as is practicable having regard to rules 1 to 4; and a Boundary Commission may depart from the strict application of rule 4 if it appears to them that a departure is desirable to avoid an excessive disparity between the electorate of any constituency and the electoral quota, or between the electorate of any constituency and that of neighbouring constituencies in the part of the United Kingdom with which they are concerned.
6. A Boundary Commission may depart from the strict application of rules 4 and 5 if special geographical considerations, including in particular the size, shape and accessibility of a constituency, appear to them to render a departure desirable.

Cyffredinol ac Atodol

7. Nid dyletswydd y Comisiwn Ffiniau fydd anelu at weithredu'r rheolau uchod yn llawn ym mhob achos, ond bydd yn ystyried y canlynol cyn belled ag y bo'n rhesymol -
 - (a) yr anghyfleustra wrth newid etholaethau ac eithrio newidiadau a wnaed at ddibenion rheol 4, ac
 - (b) unrhyw rwymau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y newidiadau hyn.
8. Wrth gymhwyso rheol 5 i bob rhan o'r Deyrnas Unedig y ceir Comisiwn Ffiniau ar ei chyfer -
 - (a) ystyr yr ymadrodd "cwota etholiadol" fydd y nifer a geir drwy rannu nifer yr etholwyr ar gyfer y rhan honno o'r Deyrnas Unedig gyda nifer yr etholaethau sy'n bodoli ynddi ar y dyddiad cyfrif,
 - (b) ystyr yr ymadrodd "etholwyr" yw -
 - (i) mewn perthynas ag etholaeth, nifer y bobl y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr o etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad cyfrif o dan y Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer yr etholaeth,
 - (ii) mewn perthynas â'r rhan o'r Deyrnas Unedig, cyfanswm yr etholwyr fel y'i diffiniwyd yn is-baragraff (i) uchod o'r holl etholaethau yn y rhan honno,
 - (c) ystyr yr ymadrodd "dyddiad cyfrif", mewn perthynas ag unrhyw adroddiad gan Gomisiwn Ffiniau o dan y Ddeddf hon, yw'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw, yn unol ag adran 5(1) o'r Ddeddf hon.
9. Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at reol, wedi'i ddilyn gan rif, yn gyfeiriad at reol a nodir yn y paragraff sydd â'r un rhif yn yr Atodlen hon.

General and Supplementary

7. It shall not be the duty of a Boundary Commission to aim at giving full effect in all circumstances to the above rules, but they shall take account so far as they reasonably can -
- (a) of the inconveniences attendant on alterations of constituencies other than alterations made for the purposes of rule 4, and
 - (b) of any local ties which would be broken by such alterations.
8. In the application of rule 5 to each part of the United Kingdom for which there is a Boundary Commission -
- (a) the expression "electoral quota" means a number obtained by dividing the electorate for that part of the United Kingdom by the number of constituencies in it existing on the enumeration date,
 - (b) the expression "electorate" means -
 - (i) in relation to a constituency, the number of persons whose names appear on the register of parliamentary electors in force on the enumeration date under the Representation of the People Acts for the constituency,
 - (ii) in relation to the part of the United Kingdom, the aggregate electorate as defined in sub-paragraph (i) above of all the constituencies in that part,
 - (c) the expression "enumeration date" means, in relation to any report of a Boundary Commission under this Act, the date on which the notice with respect to that report is published in accordance with section 5(1) of this Act.
9. In this Schedule, a reference to a rule followed by a number is a reference to the rule set out in the correspondingly numbered paragraph of this Schedule.

RHEOLAU AR GYFER CYFANSODDIAD RHANBARTHU ETHOLIADOL Y CYNULLIAD

Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Y Rheolau

- 8.- (1) Mae'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4 a 7(2) fel a ganlyn -
1. Cynhwysir pob un o etholaethau'r Cynulliad yn gyfan gwbl yn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.
 2. Bydd nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad cyn agosed i nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob un o ranbarthau etholiadol eraill y Cynulliad ag y bo'n ymarferol, gan roi sylw (lle bo'n briodol) i ystyriaethau daearyddol arbennig.
 3. Cyfanswm nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) hanner cyfanswm etholaethau'r Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â dau) hanner y nifer a geir drwy ychwanegu un at y cyfanswm hwnnw.
 4. Nifer seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarth etholiadol y Cynulliad fydd -
 - (a) un rhan o bump o gyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu
 - (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union â phump) naill ai un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw y gellir ei rannu'n union â phump neu'r rhif a geir drwy ychwanegu un rhan o bump at y rhif uchaf hwnnw (fel y darperir gan is-baragraffau (2) i (4)).
- (2) Os na ellir rhannu cyfanswm seddau'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad yn union â phump, bydd y Comisiwn yn cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng -
- (a) cyfanswm nifer y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, a'r
 - (b) rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rannu'n union â phump,
- a dyna nifer y seddau sy'n weddill i'r Comisiwn eu dyrannu.
- (3) Ni fydd y Comisiwn yn dyrannu mwy nag un sedd sy'n weddill i ranbarth etholiadol y Cynulliad.
 - (4) Bydd y Comisiwn yn rhannu nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol y Cynulliad gyda chyfanswm -
 - (a) nifer etholaethau'r Cynulliad yn rhanbarth etholiadol y Cynulliad, ac

RULES FOR THE CONSTITUTION OF ASSEMBLY ELECTORAL REGIONS

Schedule 1 to the Government of Wales Act 1998

The Rules

- 8.- (1) The rules referred to in paragraphs 4 and 7(2) are -
1. Each Assembly constituency shall be wholly included in one Assembly electoral region.
 2. The regional electorate for an Assembly electoral region shall be as near the regional electorate for each other Assembly electoral region as is reasonably practicable, having regard (where appropriate) to special geographical considerations.
 3. The total number of Assembly seats for the Assembly electoral regions shall be -
 - (a) one half of the total number of the Assembly constituencies, or
 - (b) (if that total number is not exactly divisible by two) one half of the number produced by adding one to that total number.
 4. The number of Assembly seats for an Assembly electoral region shall be -
 - (a) one fifth of the total number of Assembly seats for the electoral Assembly regions, or
 - (b) (if that total number is not exactly divisible by five) either one fifth of the highest number which is less than that total number and exactly divisible by five or the number produced by adding one to one fifth of that highest number (as provided by sub-paragraphs (2) to (4)).
- (2) If the total number of Assembly seats for the electoral Assembly regions is not exactly divisible by five, the Commission shall calculate the difference between -
- (a) the total number of seats for the Assembly electoral regions, and
 - (b) the highest number which is less than that total number and exactly divisible by five,
- and that is the number of residual seats to be allocated by the Commission.
- (3) The Commission shall not allocate more than one residual seat to an Assembly electoral region.
- (4) The Commission shall divide the regional electorate for each Assembly electoral region by the aggregate of -
- (a) the number of Assembly constituencies in the Assembly electoral region, and
 - (b) one fifth of the highest number which is less than the total number of seats for the electoral Assembly regions and exactly divisible by five,

- (b) un rhan o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na chyfanswm y seddau ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ac y gellir ei rannu'n union â phump,

ac, wrth ddyrannu'r sedd neu'r seddau sy'n weddill i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad, bydd yn ystyried pa mor ddymunol yw dyrannu sedd neu seddau i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad y mae'r cyfrifiad hwnnw'n cynhyrchu'r nifer neu niferoedd uchaf ar eu cyfer.

and, in allocating the residual seat or seats to an Assembly electoral region or Assembly electoral regions, shall have regard to the desirability of allocating the residual seat or seats to the Assembly electoral region or regions for which that calculation produces the highest number or numbers.

DATGANIAD AR Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.
2. Mae Adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, lunio cynllun iaith Gymraeg. Wrth baratoi'r cynllun hwn, rhaid ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (BIG). Paratowyd cynllun gan y Comisiwn, y cymeradwywyd gan BIG ar 10 Tachwedd 1997. Mae copi o'r cynllun ar gael ar gais, ac mae ar gael ar wefan y Comisiwn.
3. Dyma'r ymrwymïadau a gynhwysir yng nghynllun yr iaith Gymraeg:
 - (a) caiff pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn ei chyhoeddi yn y ddwy iaith;
 - (b) caiff holl offer swyddfa'r Comisiwn ei argraffu'n ddwyieithog a bydd yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (c) caiff gohebiaeth y Comisiwn ag unigolion neu grwpiau y mae'n hysbys ei fod yn well ganddynt ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg ei hanfon yn y Gymraeg;
 - (d) caiff cylchlythyron, datganiadau newyddion, datganiadau i'r wasg, llyfrynnau gwybodaeth, datganiadau ymholiadau cyhoeddus, adroddiadau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn eu cynhyrchu'n ddwyieithog (ac fel un ddogfen) a byddant yn cynnwys datganiad safonol bod y Comisiwn yn croesawu cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg;
 - (e) caiff unrhyw benawdau, allweddau, eglurhadau, rhestrï, nodiadau esboniadol neu rybuddion hawlfraint a ychwanegir gan y Comisiwn at fapiau a brynir oddi wrth gyflenwyr mapiau eu cynhyrchu'n ddwyieithog;
 - (f) lle bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus pan ragwelir y gall fod nifer o gyfranwyr Cymraeg eu hiaith;
 - (g) bydd y Comisiwn yn trefnu bod cyfieithwyr allanol proffesiynol yn mynychu ei ymchwiliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd;
 - (h) bydd y Comisiwn yn ceisio cyflogi siaradwr Cymraeg yn ei Ysgrifenyddiaeth pan gaiff staff newydd eu recriwtio. I hyrwyddo'r nod hwn, bydd y Comisiwn yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel gofyniad dymunol ar gyfer swyddi yn ei Ysgrifenyddiaeth;
 - (i) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth yn yr iaith a ddewisir gan y gohebydd;
 - (j) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth cyn pen deng niwrnod gwaith o gael llythyr, ni waith os bydd angen anfon yr ateb yn Gymraeg, Saesneg, neu'n ddwyieithog; a
 - (k) bydd y Comisiwn yn ateb pob galwad ffôn yn yr iaith a ddewisir gan y galwr.

STATEMENT ON THE USE OF THE WELSH LANGUAGE

1. The Boundary Commission for Wales has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales, it will treat the Welsh and English languages on a basis of equality.
2. Section 7 of the Welsh Language Act 1993 requires public bodies, who provide services to the public in Wales, to have a Welsh language scheme. In the preparation of such a scheme, account must be taken of the guidelines issued by the Welsh Language Board (WLB). The Commission prepared a scheme, which the WLB approved on 10 November 1997. A copy of the scheme is available on request and is available on the Commission's web site.
3. The undertakings contained in the Welsh language scheme are:
 - (a) all documents published by the Commission will be published in both languages;
 - (b) all Commission stationery will be printed bilingually and contain a standard statement that the Commission welcomes contact in the Welsh language;
 - (c) correspondence initiated by the Commission with individuals or groups who are known to prefer corresponding through the medium of Welsh will be sent in Welsh;
 - (d) newsletters, news releases, press notices, information booklets, public inquiry statements, reports to the Deputy Prime Minister and any other material published by the Commission will be produced bilingually (and as one document) and shall contain a standard statement that the Commission welcome contact in the Welsh language;
 - (e) any headings, keys, legends, lists, explanatory notes or copyright warnings added by the Commission to maps procured from map suppliers, will be produced bilingually;
 - (f) the Commission will endeavour to engage, whenever possible, Welsh speaking Assistant Commissioners to conduct its public inquiries when it is anticipated that there might be a number of Welsh speaking contributors;
 - (g) the Commission will engage professional external translators to attend its public inquiries to provide an instantaneous interpretation service;
 - (h) the Commission will endeavour to employ a Welsh speaker amongst its Secretariat whenever new staff are recruited. To further this aim, the Commission will include the ability to speak Welsh as a desirable requirement for posts within its Secretariat;
 - (i) the Commission will reply to all correspondence in the language chosen by the correspondent;
 - (j) the Commission will respond to all correspondence within ten working days of receipt of a letter regardless of whether the reply is to be sent in English, Welsh, or bilingually; and
 - (k) the Commission will answer all telephone calls in the language chosen by the caller.

4. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ystod ymholiadau lleol. Mae wedi cytuno y dylai dau gyfieithydd fynychu pob ymholiad lleol.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n medru'r Gymraeg yn ystod ymholiadau lleol lle bo tebygolrwydd uchel y siaredir Cymraeg.

4. The Commission are committed to ensuring adequate provision of interpretation services at local inquiries. They have agreed that two interpreters should be in attendance at each local inquiry.

The Commission are committed to appointing Welsh speaking Assistant Commissioners at local inquiries where the likelihood of Welsh being spoken is high.

1. Ceir cyfansoddiad y ddwy etholaeth argymelledig fel a ganlyn (dangosir etholaethau 2007 mewn cromfachau):

BRECON AND RADNORSHIRE COUNTY CONSTITUENCY (55,290) adrannau etholiadol **Sir Powys**: Aber-craf, Bugeildy, Brwynllys, Llanfair-ym-Muallt, Bwlch, Crucywel, Cwm-twrch, Diserth a Thre-coed, Felin-fâch, Y Clas ar Wy, Gwernyfed, Y Gelli Gandryll, Trefyclo, Llanafan fawr, Llanbadarn Fawr, Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod, Gogledd Llandrindod, De Llandrindod, Llanelwedd, Llangatwg, Llangors, Llangynllo, Llangynidr, Llanwrtyd, Llanllyr, Maescar/Llywel, Nantmel, Pencraig, Llanandras, Rhaeadr Gwy, St. David Fewnol, St. Ioan, St. Fair, Talgarth, Tal-y-bont ar Wysg, Tawe-Uchaf, Ynysgedwyn, Ysgir, Ystradgynlais.

NEATH COUNTY CONSTITUENCY (58,314) adrannau etholiadol **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**: Aberdulais, Allt-wen, Blaengwrach, Gogledd Bryn-côch, De Bryn-côch, Llangatwg, Cimla, Y Creunant, Cwmllynfell, Dyffryn, Glyn-nedd, Godre'r graig, Gwaun-Cae-Gurwen, Brynaman Isaf, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Onllwyn, Pelenna, Pontardawe, Resolfen, Rhos, Seven Sisters, Tonna, Trebannws, Ystalyfera.

2. Yr adrannau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r adrannau etholiadol a sefydlwyd gan y Gorchymynion canlynol:

- Gorchymyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol) 1998
- Gorchymyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwmhir) 2003

a

- Gorchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot 1994,
- Gorchymyn Dinas a Sir Abertawe (Trefniadau Etholiadol) 1998

y diwygiwyd y ddau ohonynt gan

Orchymyn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Trebannws a Chlydach) 2002.

3. Ceir cyfansoddiad dau ranbarth etholiadol argymelledig y Cynulliad fel a ganlyn:

CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU: Brecon and Radnorshire CC, Carmarthen East and Dinefwr CC, Carmarthen West and South Pembrokeshire CC, Ceredigion CC, Dwyfor Meirionnydd CC, Llanelli CC, Montgomeryshire CC, Preseli Pembrokeshire CC.

GORLLEWIN DE CYMRU: Aberavon CC, Bridgend CC, Gower CC, Neath CC, Ogmore CC, Swansea East BC, Swansea West BC.

1. The composition of the two recommended constituencies is as follows (the 2007 electorates are shown in brackets):

BRECON AND RADNORSHIRE COUNTY CONSTITUENCY (55,290) Powys County
electoral divisions: Aber-craf, Beguildy, Bronllys, Builth, Bwlch, Crickhowell, Cwm-twrch, Disserth and Trecoed, Felin-fâch, Glasbury, Gwernyfed, Hay, Knighton, Llanafanfawr, Llanbadarn Fawr, Llandrindod East/Llandrindod West, Llandrindod North, Llandrindod South, Llanellwedd, Llangattock, Llangors, Llangunllo, Llangynidr, Llanwrtyd Wells, Llanyre, Maescar/Llywel, Nantmel, Old Radnor, Presteigne, Rhayader, St.David Within, St.John, St.Mary, Talgarth, Talybont-on-Usk, Tawe-Uchaf, Ynyscedwyn, Yscir, Ystradgynlais.

NEATH COUNTY CONSTITUENCY (58,314) Neath Port Talbot County Borough
electoral divisions: Aberdulais, Allt-wen, Blaengwrach, Bryn-côch North, Bryn-côch South, Cadoxton, Cimla, Crynant, Cwmllynfell, Dyffryn, Glynneath, Godre'r graig, Gwaun-Cae-Gurwen, Lower Brynamman, Neath East, Neath North, Neath South, Onllwyn, Pelenna, Pontardawe, Resolven, Rhos, Seven Sisters, Tonna, Trebanos, Ystalyfera.

2. The electoral divisions named in this document are the electoral divisions, which were created by the following Orders:

- The County of Powys (Electoral Arrangements) Order 1998
- The Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister and Abbey Cwmhir) Order 2003

and

- The County Borough of Neath and Port Talbot Electoral Arrangements Order 1994,
- The City and County of Swansea (Electoral Arrangements) Order 1998


both amended by

The Neath Port Talbot and Swansea (Trebanos and Clydach) Order 2002.

3. The composition of the two recommended Assembly electoral regions is as follows:


MID AND WEST WALES: Brecon and Radnorshire CC, Carmarthen East and Dinefwr CC, Carmarthen West and South Pembrokeshire CC, Ceredigion CC, Dwyfor Meirionnydd CC, Llanelli CC, Montgomeryshire CC, Preseli Pembrokeshire CC.

SOUTH WALES WEST: Aberavon CC, Bridgend CC, Gower CC, Neath CC, Ogmore CC, Swansea East BC, Swansea West BC.



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.

Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Comisiwn Ffiniau i Gymru, 100017916, 2007



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright.

Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Boundary Commission for Wales, 100017916, 2007

**NEATH - BRECON AND RADNORSHIRE
ETHOLAETHAU A RHANBARTHU ETHOLIADOL CYNULLIAD**


Atodiad F



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.

Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Comisiwn Ffiniau i Gwmru. 100017916. 2007

**NEATH - BRECON AND RADNORSHIRE
CONSTITUENCIES AND ASSEMBLY ELECTORAL REGIONS**



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright.

Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Boundary Commission for Wales, 100017916, 2007

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 5774628 06/08 396280 19585

Argraffwyd ar Bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Printed in the UK by The Stationery Office Limited
on behalf of the Contoller of Her Majesty's Stationery Office
ID 5774628 06/08 396280 19585
Printed on Paper containing 75% recycled fibre content minimum.



information & publishing solutions

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474

Fax orders: 0870 600 5533

Email: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0870 240 3701

TSO Shops

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ

0870 606 5566 Fax 0870 606 5588

The Parliamentary Bookshop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

TSO@Blackwell and other Accredited Agents



information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac mae gael:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs & E-bost

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebu drwy Linell Ffôn *Lo-call* y 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bostl: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Siopau'r Llyfrfa

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ

0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Siop Lyfrau'r Senedd

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

ISBN 978-0-10-295572-9



9 780102 955729